

Bwrdd Cyflawni *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach*

10 Medi 2020

Datganiad



Cynhaliwyd ail gyfarfod Bwrdd Cyflawni *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* ar 10 Medi. Mae'r Bwrdd, yn cael ei gadeirio gan Darren Hughes, Cyfarwyddwr Confederasiwn GIG Cymru, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o unigolion sy'n gweithio ar draws y proffesiwn fferylliaeth ac mewn asiantaethau cymorth yng Nghymru, fel sy'n hanfodol ar gyfer cydweithio i lywio hynt y gwaith o gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Fferylliaeth yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Yn yr ail gyfarfod hwn, canolbwyntiodd trafodaethau'r Bwrdd ar y canlynol:

- Adolygu'r cynnydd tuag at gyflawni nodau 2022 - bu'r aelodau'n trafod yn helaeth, gan asesu'r meysydd lle y gwelwyd cynnydd bodddhaol a'r meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt. Cafwyd cytundeb clir bod angen pennu targedau (neu fesuriadau) ar gyfer pob un o nodau 2022 er mwyn nodi cyfres o 'gampau' neu ffyrdd o hwyluso'r broses o gyflawni pob un o'r nodau. Cytunwyd ar sefydlu is-grŵp dynodedig i ddiffinio'r targedau hyn cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd fis Hydref. Hefyd bydd is-grwpiau sy'n arwain ar bedair thema benodol y Weledigaeth yn cael eu sefydlu, ac mae'r is-grŵp ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau'n Ddigidol eisoes wedi cael ei greu, o dan gadeiryddiaeth Cheryl Way o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.
- Adolygu cynigion ar gyfer ariannu prosiectau a gafodd eu cyflwyno cyn y pandemig. Croesawodd y Bwrdd y cynigion ar gyfer prosiectau gan ail-bwysleisio ei ymrwymiad i gefnogi prosiectau arloesol sy'n gydnaws â *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach*. Roedd y Bwrdd hefyd yn awyddus i sicrhau bod pwyslais ar werthuso'r prosiectau o ran eu hymarferoldeb a'u canlyniadau i weld a allent gefnogi'r gwaith cydgrynhoi ac a fyddai'n bosibl eu gweithredu ar lefel genedlaethol, pe bai hynny'n hynny'n briodol. Cysylltir â'r sawl sy'n cynnig prosiectau maes o law i drafod y materion hyn, cyn gwneud unrhyw gynigion cyllid. Gwahoddir rhagor o geisiadau am gyllid prosiectau cyn bo hir, pan fydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno cynigion ysgrifenedig i flwch post y Bwrdd Cyflawni: Pharmacy.DeliveryBoard@llyw.cymru, ac wedyn cyflwyno eu syniadau i'r Bwrdd yn uniongyrchol.
- Blaenoriaethu'r angen i gyfathrebu â'r proffesiwn ynglŷn â *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* a sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod beth y mae'r proffesiwn fferylliaeth yn ei wneud a pha wasanaethau y mae'n eu darparu. Bydd yn hanfodol rhaedru gwybodaeth i bob rhan o'r proffesiwn, gan gynnwys drwy rwydweithiau a sefydliadau'r aelodau eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynhyrchu ffilmiau byr o ddelweddau symudol i helpu i godi ymwybyddiaeth: <https://www.youtube.com/playlist?list=PLjMeXSKvZdnv3BTvTvP5yyryNDXjtCWGj>. Byddwn yn edrych ar y posibiladau o ran defnyddio gweminarau a'r wasg fferylliaeth. Byddem yn croesawu cael rhagor o awgrymiadau ar gyfer hyrwyddo'r

Weledigaeth, ei hamcanion, a'i nodau, felly cysylltwch â ni:
Pharmacy.DeliveryBoard@llyw.cymru